PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Papur Briffio

# Beth mae'r prif bleidiau gwleidyddol yn addo ei gyflawni i fabanod, plant a phobl ifanc cyn Etholiad y Senedd ym mis Mai 2026.

*Dyma gipolwg ar rai o'r cynigion y mae'r prif bleidiau gwleidyddol yn addo eu cyflawni i fabanod, plant a phobl ifanc ym maniffestos eu pleidiau a ryddhawyd cyn etholiad y Senedd ar 7 Mai 2026. Rhestrir y maniffestos yn nhrefn eu rhyddhau.*

## Blaenoriaethau'r Ceidwadwyr Cymreig a sut maen nhw'n ymwneud â hawliau a lles babanod, plant a phobl ifanc

Mae Maniffesto 'Trwsio Cymru' y Ceidwadwyr Cymreig yn amlinellu cyfres o gynigion polisi sydd â'r nod o gryfhau'r gefnogaeth i fabanod, plant a phobl ifanc gyda phwyslais clir ar deuluoedd, addysg a chyfleoedd yn y dyfodol. Mae'r Blaid yn ymrwymo i ehangu mynediad at ofal plant fforddiadwy i alluogi rhieni i gydbwyso cyfrifoldebau gwaith a theuluol, gan gefnogi datblygiad plentyndod cynnar o ansawdd uchel. Ymhlith y cynigion i gefnogi teuluoedd mae lleihau costau gofal plant, drwy estyn gofal plant am ddim o 9 mis i 4 oed a thrwy gyflwyno taliad gofal plant i neiniau a theidiau sy'n gofalu am eu hwyrion. Ym maes addysg, mae'r maniffesto yn blaenoriaethu codi safonau ysgolion, gwella canlyniadau llythrennedd a rhifedd, a chryfhau atebolrwydd i sbarduno gwelliannau mewn canlyniadau i ddysgwyr. Mae'r Maniffesto hefyd yn amlygu pwysigrwydd cynnig llwybrau galwedigaethol amrywiol, ehangu prentisiaethau a meithrin cysylltiadau cryfach rhwng darparwyr addysg a chyflogwyr i gefnogi pontio llwyddiannus i'r gweithlu. Yn ogystal, mae'r Maniffesto yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr ar drechu tlodi, gan ymgorffori strategaethau wedi'u targedu i fynd i'r afael â thlodi plant a'i leihau.

Amlinellir yn y Maniffesto nifer o ymrwymiadau sydd â'r nod o wella lles a chyfleoedd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Ymhlith y rhain mae dod i ben â defnyddio gwestai a charafanau fel llety brys i deuluoedd â phlant; diogelu teithio bws am ddim a chynnig cerdyn rheilffordd am ddim i bob person 16–24 oed; cynyddu'r capasiti ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc i atal lleoliadau sy'n bell iawn i ffwrdd o'u hanwyliaid.

Cydnabyddir hefyd y cyfraniad a wneir gan ofalwyr ifanc, gyda chynigion ar gyfer cynllun cerdyn gofalwyr ifanc, teithio am ddim ar fysiau, a grantiau i gael addysg, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth.

Mae’r blaenoriaethau allweddol eraill a nodir yn y Maniffesto yn cynnwys:

- Lansio ymchwiliad i gangiau grŵmio
- Diwygio Dechrau'n Deg
- Cyflwyno bil awtistiaeth ac anabledd dysgu
- Adolygiad o'r ddeddfwriaeth ADY gyfredol
- Caniatáu i rieni dynnu eu plant yn ôl o wersi addysg rhyw ac addysg grefyddol.

Mae **Plant yng Nghymru** yn croesawu cynigion i flaenoriaethu datblygiad plentyndod cynnar a sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, gan gynnwys polisïau sy'n anelu at ehangu gofal plant am ddim, gwella iechyd, addysg a chymorth tai, a chryfhau’r ddarpariaeth i ofalwyr ifanc.

Maniffesto’r Ceidwadwyr Cymreig 2026 CYM PDF

## Blaenoriaethau Reform UK a sut maen nhw’n ymwneud â hawliau a lles babanod, plant a phobl ifanc

Mae Maniffesto Senedd Cymru Reform UK yn cynnig rhaglen o ddiwygiadau sy'n canolbwyntio ar addysg, datblygu sgiliau a thyfu’r economi, gan ddatgan y nod o wella canlyniadau i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Un o themâu canolog y Maniffesto yw'r pwyslais ar godi safonau academaidd, yn enwedig trwy newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm ysgol. Mae Reform UK yn rhoi pwyslais cryf ar bwysigrwydd pynciau academaidd craidd, gan gynnwys Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, gyda'r bwriad o gryfhau sgiliau sylfaenol a gwella cyrhaeddiad addysgol.Ymrwymir yn y Maniffesto i adolygu'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gyda'r bwriad o fynd i'r afael ag anghysondebau mewn cymorth ar draws gwahanol ardaloedd o Gymru. Mae Reform UK yn cynnig gwell darpariaeth i ysgolion arbennig, ochr yn ochr â sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael yn haws i athrawon mewn lleoliadau prif ffrwd. Cynlluniwyd y mesurau hyn i sicrhau bod dysgwyr ag anghenion cymhleth neu ychwanegol yn cael cymorth priodol ac amserol. Mewn perthynas ag iechyd a lles, cynigia'r Maniffesto adeiladu ar y ddarpariaeth iechyd meddwl bresennol o fewn y cwricwlwm ysgol. Mae Reform UK yn amlygu pwysigrwydd ysgolion yn parhau i flaenoriaethu iechyd meddwl ochr yn ochr ag iechyd corfforol, gan gefnogi lles emosiynol ac ymyrraeth gynnar i blant a phobl ifanc.

Amlinellir yn y Maniffesto gynlluniau i ehangu llwybrau addysg alwedigaethol a chyfleoedd prentisiaeth. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cynllun prentisiaethau gwledig cenedlaethol, gyda'r nod o gefnogi pobl ifanc mewn cymunedau gwledig i ddatblygu sgiliau a manteisio’n rhwyddach ar gyfleoedd cyflogaeth. Ymhlith y cynigion ychwanegol mae buddsoddi mewn chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol ledled Cymru, yn ogystal â recriwtio ymwelwyr iechyd ychwanegol i helpu i wella parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chanlyniadau datblygiad cynnar.

Mae’r blaenoriaethau allweddol eraill a nodir yn y Maniffesto yn cynnwys:

- Ehangu gwasanaethau ymyrraeth gynnar i leihau'r galw ar lefel argyfwng ac atal pobl ifanc rhag syrthio trwy fylchau ar adegau tyngedfennol
- Lansio ymchwiliad i gangiau grŵmio

Mae **Plant yng Nghymru** yn croesawu'r ffocws ar godi safonau addysgol, cryfhau cymorth iechyd meddwl, gwella'r ddarpariaeth ADY, ehangu ymyrraeth gynnar, a chynyddu cyfleoedd galwedigaethol a phrentisiaethau i bobl ifanc.

welsh-manifesto-welsh.pdf

## Blaenoriaethau Llafur Cymru a sut maen nhw'n ymwneud â hawliau a lles babanod, plant a phobl ifanc

Ym Maniffesto Llafur Cymru 'Pennod Newydd i Gymru: Tegwch chi'n Gallu Teimlo' nodir ystod o bolisïau gyda'r nod o wella canlyniadau i fabanod, plant a phobl ifanc, gan ganolbwyntio ar addysg, iechyd, lles a lleihau anghydraddoldebau. Wrth wraidd y Maniffesto mae ymrwymiadau i fynd i'r afael â chostau byw, ehangu mynediad at ofal plant a pharhau i gynnig trafnidiaeth ratach, gan gynnwys y tocyn bws £1 i bobl dan 25 oed. Mae'r Blaid yn ymrwymo i leihau amseroedd aros ar gyfer asesiadau niwroddatblygiadol a buddsoddi mewn cymorth iechyd meddwl yn y gymuned, yn enwedig i fenywod beichiog a mamau newydd. Ym maes addysg, mae Llafur Cymru yn addo codi safonau drwy dargedu cymorth rhifedd a llythrennedd ym mlynyddoedd 6 a 7, sicrhau bod holl staff ysgolion yn cael eu hyfforddi i gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a gweithredu canllawiau cenedlaethol newydd ar ymddygiad disgyblion a gefnogir gan adnoddau i fynd i'r afael ag arfau mewn ysgolion. Rhoir blaenoriaeth allweddol i fynd i'r afael â thlodi plant a chostau byw. Mae'r Maniffesto yn cynnwys cynigion i ehangu'r cynllun Bwndeli Babanod, estyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd i aelwydydd sy'n cael Credyd Cynhwysol, a gwneud Siarter Budd-daliadau Cymru yn gyfraith. Bwriad y mesurau hyn yw cefnogi teuluoedd a sicrhau bod gwasanaethau hanfodol a safon byw weddus ar gael yn well i blant.

Mae'r Maniffesto hefyd yn amlinellu ymrwymiadau i gefnogi iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc trwy sicrhau bod gwasanaethau cwnsela ysgol ar gael yn haws ac ymgorffori ymagwedd ysgol gyfan at iechyd meddwl a lles. Mae'r cynigion ar gyfer diwygio gofal plant â phrofiad o ofal yn canolbwyntio ar gadw plant yn nes at adref, a hynny gyda theuluoedd lle bynnag y bo modd, gan feithrin ymhellach y model maethu Camu i Fyny, Camu i Lawr a chryfhau'r gefnogaeth i ofalwyr sy'n berthynas a gofalwyr gwarcheidiaeth arbennig.

Mae'r blaenoriaethau allweddol eraill a nodir yn y Maniffesto yn cynnwys:

- Gweithredu ynghylch y strategaeth genedlaethol ar gyfer atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol ac argymhellion adolygu llywodraethu diogelu
- Sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid i gefnogi darparu gwaith ieuenctid dwyieithog cyffredinol, mynediad agored.
- Rhoi terfyn ar ddigartrefedd erbyn 2034, gan gynnwys atal plant rhag cael eu rhoi mewn llety gwely a brecwast erbyn 2030
- Cyflwyno'n raddol ofal plant wedi'i ariannu o naw mis oed

Mae **Plant yng Nghymru** yn croesawu polisïau sy'n rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i fabanod, mynd i'r afael â thlodi plant a lleihau anghydraddoldebau, gwella hawliau plant i addysg, iechyd, safon byw ddigonol a datblygiad cynnar a darparu'n gryfach ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal.

**Maniffesto Cymraeg PDF.pdf - Google Drive**

## Blaenoriaethau Plaid Werdd Cymru a sut maen nhw'n ymwneud â hawliau a lles babanod, plant a phobl ifanc

Ym Maniffesto'r Blaid Werdd nodir rhaglen gyfannol o bolisïau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i gefnogi hawliau a lles babanod, plant a phobl ifanc. Mae'n blaenoriaethu datblygiad plentyndod cynnar, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella amodau byw, gydag ymrwymiad allweddol i ehangu gofal plant am ddim o naw mis a chynyddu oriau wedi'u hariannu i gefnogi datblygiad plant a helpu teuluoedd i gydbwyso gwaith a bywyd teuluol. O fewn y blaenoriaethau addysg, canolbwyntir ar sicrhau mynediad teg at addysg o safon i bob dysgwr, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Mae'r Blaid yn rhoi pwyslais ar les mewn ysgolion, gan gydnabod pwysigrwydd iechyd meddwl ochr yn ochr â chyflawniad academaidd. Ymhlith y cynigion mae cymhwyso dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella llythrennedd, ysgolion heb ffonau, eco-lythrennedd, llythrennedd bwyd a chryfhau addysg iechyd, lles a pherthnasoedd, gan gynnwys perthnasoedd LHDTCRhA. Mewn perthynas ag iechyd meddwl, mae'r Maniffesto yn blaenoriaethu ymyrraeth gynnar trwy weithredu cynllun iechyd meddwl pobl ifanc a gwell cefnogaeth i'r 'canol coll', ochr yn ochr â gwaith cryfach ar berthnasoedd iach, iechyd rhywiol a chamddefnyddio sylweddau.

Nodir bod gwella tai ac amodau byw yn feysydd allweddol i gefnogi lles plant. Yn y Maniffesto ceir cynigion sydd â'r nod o sicrhau bod cartrefi cynnes a diogel ar gael i deuluoedd, trechu digartrefedd a mynd i'r afael â'r costau byw cynyddol. Mae'r mesurau i leihau tlodi plant yn cynnwys cynigion fel diddymu'r dreth gyngor a chyflwyno treth gwerth tir, cyflwyno cludiant bws am ddim i bobl dan 22 oed a thocyn bws £1 i bobl rhwng 22 a 59 oed. Ategir y cynigion hyn gan gamau gweithredu i leihau cost y diwrnod ysgol, gan gynnwys estyn prydau cyffredinol am ddim i ysgolion uwchradd a chyfyngu ar eitemau gwisg ysgol wedi'u brandio.

Mae'r blaenoriaethau allweddol eraill a nodir yn y Maniffesto yn cynnwys:

- Ymgyrchu i bobl â phrofiad o ofal gael eu cydnabod ymhlith y nodweddion gwarchodedig o dan gyfraith cydraddoldeb
- Sefydlu gwasanaeth rhywedd pwrpasol ar gyfer pobl dan 17 oed
- Sicrhau bod cyfleoedd creadigol, diwylliannol a darllen ar gael i blant a theuluoedd

Mae **Plant yng Nghymru** yn croesawu polisïau sy'n mynd i'r afael â thlodi plant, lleihau anghydraddoldeb, a gwella'r ddarpariaeth iechyd meddwl, gwella cyfleoedd addysg a chodi safonau byw, gan gefnogi hawliau plant i blentyndod diogel ac iach a chyfleoedd bywyd cadarnhaol.

Senedd-Maniffesto-2026-CYM2.pdf

## Blaenoriaethau Plaid Cymru a sut maen nhw’n ymwneud â hawliau a lles babanod, plant a phobl ifanc

Ym Maniffesto 'Dros Gymru' Plaid Cymru nodir rhaglen sy'n canolbwyntio ar blant ac, yn benodol, cryfhau hawliau, lles a datblygiad babanod, plant a phobl ifanc ledled Cymru. Un ymrwymiad canolog yw ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn llawn yng nghyfraith a phenderfyniadau Cymru, gan sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal a'u bod yn rhan ystyrlon o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r Maniffesto yn blaenoriaethu sicrhau bod gofal plant ac addysg gynnar fforddiadwy o safon ar gael i bawb er mwyn gwella canlyniadau datblygiadol a lleihau anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mewn addysg orfodol, mae'r blaid yn ymrwymo i fuddsoddi mwy mewn ysgolion, cryfhau cefnogaeth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a mesurau wedi'u targedu i gau'r bylchau cyrhaeddiad. Mewn perthynas ag iechyd, mae'r Maniffesto yn blaenoriaethu mynediad cyfartal at wasanaethau'r GIG, gyda phwyslais arbennig ar ehangu'r ddarpariaeth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. Amlygir modelau ymyrraeth gynnar a gofal integredig i wella parhad ac effeithiolrwydd cymorth. Ymhlith yr ymrwymiadau mae gwell cefnogaeth i blant ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor ac integreiddio Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion (AMHS) yn agosach i fynd i'r afael â'r 'ymyl clogwyn' sy’n wynebu pobl ifanc wrth gyrraedd eu 18 oed.

Nodir mynd i'r afael â thlodi plant ymhlith y blaenoriaethau craidd, gydag ymrwymiad i ddatblygu cynllun tlodi plant newydd gyda thargedau, meincnodau a cherrig milltir clir. Mae'r Maniffesto yn cynnig mesurau diogelu cymdeithasol cryfach, gan gynnwys ehangu prydau ysgol am ddim i ysgolion uwchradd i deuluoedd sy'n cael Credyd Cynhwysol, cyflwyno Cynnal fel taliad plant yng Nghymru i gefnogi teuluoedd incwm isel, a mwy o reolaeth ddatganoledig dros les i alluogi cymorth mwy ymatebol. Mae cynigion tai yn cydredeg â hawliau plant, gydag ymrwymiadau i sicrhau bod mwy o gartrefi diogel, fforddiadwy ar gael i deuluoedd.

Mae’r blaenoriaethau allweddol eraill a nodir yn y Maniffesto yn cynnwys:

- Mynediad cyfartal at wasanaethau iechyd meddwl amenedigol a pherthynas rhiant-baban ar draws byrddau iechyd
- Symleiddio ac egluro'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Dyletswyddau newydd i riportio cam-drin plant yn rhywiol
- Lleihau amseroedd aros ar gyfer asesiadau niwroddatblygiadol ochr yn ochr â gwell ymwybyddiaeth am niwroamrywiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaethau.

Mae **Plant yng Nghymru** yn croesawu polisïau sy'n trechu tlodi plant, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, cryfhau cymorth iechyd meddwl, gwella cyfleoedd addysgol, a chodi safonau byw i blant a phobl ifanc.

Dros Gymru – Maniffesto 2026.pdf

**Blaenoriaethau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a sut maen nhw'n ymwneud â hawliau a lles babanod, plant a phobl ifanc**

Ym Maniffesto 'Cymru gryfach mewn DU gryfach' Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, canolbwyntir ar ymyrraeth gynnar, cyfleoedd addysgol a lleihau anghydraddoldeb er mwyn gwella canlyniadau i fabanod, plant a phobl ifanc. Ymrwymir ynddo i ehangu mynediad at ofal plant, gan gynnwys darparu 30 awr o ofal plant am ddim i blant rhwng naw mis a phedair oed, i gefnogi datblygiad plentyndod cynnar, lleihau anghydraddoldebau a helpu rhieni i gydbwyso cyfrifoldebau gwaith a theuluol a lleddfu pwysau ariannol. Mae'r blaid hefyd yn cynnig darparu prydau ysgol am ddim i blant cymwys trwy gydol gwyliau'r ysgol.

Ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc, mae'r Maniffesto yn blaenoriaethu codi safonau addysgol a mynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad, gan sicrhau y gall pob plentyn gyrraedd ei lawn botensial, waeth beth fo'i gefndir. Nodir yn y Maniffesto ymrwymiad i nodi disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg yn 14 oed a gweithio'n agosach gydag ysgolion a Gyrfa Cymru i ddarparu cymorth wedi'i dargedu.

Mae'r Maniffesto yn amlinellu cynigion i wella pontio i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth, gan gynnwys cyflwyno gwarant i ddisgyblion sy'n ymadael â'r ysgol i sicrhau bod pob person ifanc sy'n gadael addysg orfodol yn cael cynnig addysg bellach, prentisiaeth neu hyfforddeiaeth cyn pen tri mis.

Nodir yn y Maniffesto fesurau i sicrhau bod cyfleoedd ar gael yn haws, gan gynnwys ymrwymiad i estyn y tocyn bws £1 i bobl dan 25 gan helpu i leihau rhwystrau trafnidiaeth rhag addysg, hyfforddiant a gwaith. Cynigia'r blaid ymgorffori hawliau plant a phobl ifanc drwy Fil Pob Plentyn Bil Pob Plentyn – Cyfraith i Bob Plentyn gan plantyngnghymru - Issuu, sy'n anelu at sicrhau bod pob plentyn yn cael yr hawliau, y gefnogaeth a'r cyfleoedd sydd eu hangen arno i ddechrau ei fywyd yn y modd gorau posibl.

Mae'r blaenoriaethau allweddol eraill a nodir yn y Maniffesto yn cynnwys:

- Gwella mynediad cynnar at gymorth a mynd i'r afael â thanariannu CAMHS cronig
- Mynnu bod cyrff y GIG ac Awdurdodau Lleol yn cyflwyno cynlluniau pontio o 14 oed ar gyfer pobl ifanc anabl y mae angen cymorth hirdymor arnynt, gan sicrhau parhad yn 18 oed
- Sicrhau bod pob lleoliad yn gallu adnabod a chefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae **Plant yng Nghymru** yn croesawu ymrwymiadau i ymyrraeth gynnar, gofal plant o safon, llai o bwysau ariannol ar deuluoedd, a gwell cyfleoedd addysgol, a sicrhau bod trafnidiaeth ar gael i bobl ifanc, ochr yn ochr ag ymdrechion ehangach i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella canlyniadau i fabanod, plant a phobl ifanc ledled Cymru.

Cymru gryfach mewn DU gryfach – Welsh Liberal Democrats – Democratiaid Rhyddfrydol Cymru